Darparu'r Gofrestr Etholiadol

Mae'r ddogfen hon yn nodi pwy sydd â hawl i gael pa gopïau o'r gofrestr etholiadol lawn o dan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001[1] a, lle y bo'n bosibl, i ble y dylid darparu'r copïau hyn.

Nid yw'r ddogfen yn ystyried at ba ddibenion y gellir defnyddio'r gofrestr unwaith y'i darperir.

Nid yw'n ymdrin ag archwilio'r gofrestr, na gwerthu'r gofrestr wedi'i golygu/cofrestr agored na'r gofrestr wedi'i marcio. Nid yw ychwaith yn ymdrin â'r rheini y gallai fod ganddynt yr hawl i gael y gofrestr o dan ddeddfau eraill (er enghraifft, deddfwriaeth nad yw'n ddeddfwriaeth etholiadol).

Cyn darparu'r gofrestr, bydd angen i chi fod yn fodlon bod gan yr unigolyn neu'r sefydliad sy'n gwneud y cais yr hawl i'w chael.

Lle y darperir copi data, dylech ddarparu'r copi yn y fformat y gwneir cais amdano lle bynnag y bo'n bosibl.

Ceir gwybodaeth fanwl am weld y gofrestr etholiadol lawn a'i darparu yn ein canllawiau i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban.

Rydym hefyd wedi llunio blaenddalennau ar gyfer darparu'r gofrestr ar gais a gwerthu'r gofrestr, sy'n nodi sut y gellir ei defnyddio, y gosb am gamddefnyddio'r gofrestr, a'r ffaith y dylid dinistrio data mewn modd diogel unwaith y bydd y diben y'i darparwyd ar ei gyfer wedi dod i ben.

Rhestr tablau:

Tabl 1: Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr adeg ei chyhoeddi 3

Tabl 2: Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr ar gais 9

Tabl 3: Swyddogion Canlyniadau sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr ar gyfer etholiad neu ddeiseb adalw 16

Tabl 4: Y gofyniad i ddarparu i lyfrgelloedd cenedlaethol, yn dibynnu ar leoliad y Swyddog Cofrestru Etholiadol 19

Tabl 5: Prynu'r gofrestr etholiadol.....21

[1] O dan Reoliadau Cynrychiolaeth y Bobl 2001 (fel y'u diwygiwyd)

Yng Nghymru a'r Alban, y tu hwnt i'r amgylchiadau cyfyngedig a nodir yn ein canllaw ynghylch cynnal y broses cofrestru etholiadol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru a'r Alban, ni ddylid cynnwys unrhyw wybodaeth am y rheini o dan 16 oed ar **unrhyw** fersiwn o'r gofrestr a gaiff ei chyhoeddi neu ei rhyddhau fel arall.

Diweddariadau i'r ddogfen hon

Diweddarwyd	**Disgrifiad o'r newid**
Rhagfyr 2024	Manylion cyswllt wedi'u diweddaru ar gyfer: - Llyfrgell Genedlaethol yr Alban
Medi 2024	Manylion cyswllt wedi'u diweddaru ar gyfer: - Awdurdod Ystadegau'r DU - Comisiwn Ffiniau Seneddol Lloegr - Comisiwn Ffiniau i'r Alban - Comisiwn Ffiniau i Gymru - Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Ffiniau i'r Alban

Tabl 1: Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr adeg ei chyhoeddi

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Y Llyfrgell Brydeinig	Gweler **Tabl 4**	(Cymru a Lloegr) 97 (Yr Alban) 96	Gweler **Tabl 4**
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	Gweler **Tabl 4**	(Cymru a Lloegr) 97A	Gweler **Tabl 4**
Llyfrgell Genedlaethol yr Alban	Gweler **Tabl 4**	(Cymru a Lloegr) 97B (Yr Alban) 96	Gweler **Tabl 4**
Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad llywodraeth leol[2] Yn cynnwys etholiadau ar gyfer: • Cynghorwyr Plwyf a Chymuned (Cymru a Lloegr) • Aelodau Cynulliad Llundain • Maer Llundain • Cynghorau sir nad ydynt yn fetropolitanaidd	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig ac unrhyw hysbysiad newid	(Cymru a Lloegr) 98 (Yr Alban) 97	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau
Awdurdod Ystadegau'r DU (Swyddfa Ystadegau Gwladol)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 99 (Yr Alban) 98	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi); ar ffurf excel neu CSV. **Copi data** i: Dull a ffefrir yw i ddefnyddio MoveIT i drosglwyddo'r ffeil data neu dros ebost i siu.electoral.registers@ons.gov.uk

[2] Rhaid i'r ardal etholiadol fod o fewn yr ardal gofrestru yn rhannol neu'n llwyr

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
			Noder: Bydd ffeiliau drwy DropBox, Box, Galaxkey neu We Transfer yn cael ei gwrthod **Copi wedi'i argraffu** (dim ond os gwneir cais am gopi o'r fath) at: Data Aquisition and Operations Manager, Office for National Statistics, Room 2100, Segensworth Road, Titchfield, Fareham, Hants, PO15 5RR
Cofnodion Cenedlaethol yr Alban (Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr Alban)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Yr Alban) 98	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi **Fformat** – Copi data yn unig **Copi data** i: david.rowley@nrscotland.gov.uk
Y Comisiwn Etholiadol	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 100 (Yr Alban) 99	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi); fformat CSV yn unig (nid yw EML, Word na PDF yn dderbyniol) **Copi data** i: dylid anfon drwy **Objective Connect**. I gael rhagor o wybodaeth am ddefnyddio **Objective Connect**, cysylltwch â ni ar 0333 103 1928 neu pef@electoralcommission.org.uk. Os oes gennych Egress Switch, gallwn dderbyn cyflwyniadau wedi'u hamgodio gan ddefnyddio'r porth hwnnw. Dylid eu hanfon i ElectoralRegistersMail@electoralcommission.org.uk. Os nad ydych yn gallu defnyddio'r dulliau uchod, cysylltwch â ni drwy ffonio 0333 103 1929 neu pef@electoralcommission.org.uk er mwyn i ni drafod y ffordd orau o gael eich cofrestr.

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
			Efallai na fyddwn yn gallu lawrlwytho pob cofrestr ar unwaith felly, os yw'n bosibl, peidiwch â gosod cyfyngiad ar amser i lawrlwytho. Os nad oes modd osgoi hynny, cysylltwch â ni yn pef@electoralcommission.org.uk er mwyn i ni wybod bod dogfen sy'n sensitif o ran amser yn aros amdanom yn y mewnflwch
Comisiwn Ffiniau Seneddol Lloegr (Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn Lloegr)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 101 (Yr Alban) 100	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi. Anfonir cyfarwyddiadau cyn darparu'r gofrestr bob blwyddyn. **Fformat** – Copi data mewn fformat sy'n gydnaws ag Excel (xlsx, csv, tsy) drwy e-bost, neu drwy system diogel megis Egress Switch. Dylech gynnwys copi data o dabl yn dangos nifer yr etholwyr seneddol ym mhob Dosbarth Pleidleisi mewn fformat sy'n gydnaws ag Excel (xlsx, csv, tsv). Gellir cael manylion y tabl perthnasol gan gyflenwr eich Meddalwedd Rheoli Etholiadol). Nid yw EML, Word na PDF yn dderbyniol i ddim un o'r rhain. Cynhaliwch y ddau adroddiad ar yr un pryd ag y byddwch yn cynhyrchu adroddiad RPF29 ar gyfer y Swyddfa Ystadegau Gwladol i sicrhau bod y tri yn cael eu cynhyrchu o'r un fersiwn o'r gofrestr. Nid yw Comisiwn Ffiniau Seneddol Lloegr am gael copïau papur o'r gofrestr na diweddariadau misol. Maent yn gofyn eich bod yn anfon fersiwn ddiweddaredig o'r gofrestr, gydag enwau etholwyr wedi eu tynnu oddi arni. Byddai awdurdodau lleol fel arfer yn diwygio hyn yn Excel ar ôl cynhyrchu'r gofrestr o'u cronfa ddata. Dylai'r ffeil hon gynnwys codau ardaloedd pleidleisio, marcwyr etholfraint, a dyddiadau cyrhaeddiad. Yn ogystal â hyn, gofynnir bod pob awdurdod

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
			lleol hefyd yn anfon eu dadansoddiad ardaloedd pleidleisio fel rhan o'r un cais. **Copi data** i: Registers@boundarycommissionengland.gov.uk
Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol Lloegr (swyddogion Cofrestru Etholiadol yn Lloegr)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 101	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi. Anfonir cyfarwyddiadau cyn darparu'r gofrestr bob blwyddyn.
Comisiwn Ffiniau i'r Alban (Swyddogion Cofrestru Etholiadol yn yr Alban)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 101 (Yr Alban) 100	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Copi data** i: electorate@scottishboundaries.gov.uk **Copi wedi'i argraffu** (os gwneir cais am gopi o'r fath) at: Boundary Commission for Scotland, Thistle House, 91 Haymarket Terrace, Edinburgh, EH12 5HD
Comisiwn Ffiniau i Gymru (Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 101 (Yr Alban) 100	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi. Noder: mae'r Comisiwn Ffiniau i Gymru wedi nodi mai dim ond ar gais y dylid darparu'r gofrestr iddynt **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) drwy e-bost mewn fformat CSV wedi'i ddiogelu â chyfrinair, gan anfon y cyfrinair mewn neges e-bost ar wahân

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
			Copi data i: enquiries@dbcc.gov.wales **Copi wedi'i argraffu** (os gwneir cais am gopi o'r fath) at: Y Comisiwn Ffiniau i Gymru, Cathays Park Cardiff, CF10 3NQ
Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (fel y bo'n briodol i ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 101 (Yr Alban) 100	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi. Fodd bynnag, mae Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru wedi nodi mai **dim ond ar gais** y dylid darparu'r gofrestr iddynt **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) drwy e-bost mewn fformat CSV wedi'i ddiogelu â chyfrinair, gan anfon y cyfrinair mewn neges e-bost ar wahân **Copi data** i: enquiries@dbcc.gov.wales **Copi wedi'i argraffu** (os gwneir cais am gopi o'r fath) at: Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ
Comisiwn Ffiniau i'r Alban (fel y bo'n briodol i ardal y Swyddog Cofrestru Etholiadol)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 101 (Yr Alban) 100	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi **Fformat** – Copi data (oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Copi data** i: electorate@scottishboundaries.gov

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
			Copi wedi'i argraffu (os gwneir cais am gopi o'r fath) at: Boundaries for Scotland, Thistle House, 91 Haymarket Terrace, Edinburgh, EH12 5HD
Y Ganolfan Gwysion Rheithgor Ganolog (Swyddogion Cofrestru Etholiadol yng Nghymru a Lloegr yn unig)	Y gofrestr ddiwygiedig sy'n nodi'r unigolion hynny sy'n 76 oed neu'n hŷn ac felly nad ydynt yn gymwys i ymgymryd â gwasanaeth rheithgor	Adran 3, Deddf Rheithgorau 1974	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi. Anfonir cyfarwyddiadau cyn darparu'r gofrestr bob blwyddyn. Noder: ni ddylid defnyddio'r fersiwn o'r gofrestr sy'n cynnwys manylion dynodi sy'n dangos y rheini sy'n 76 oed neu'n hŷn at unrhyw ddiben arall ar wahân i wysio rheithwyr.

Tabl 2: Sefydliadau ac unigolion sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr ar gais

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Cynrychiolwyr etholedig (gan gynnwys ASau, aelodau'r Senedd, cynghorwyr lleol, Maer Llundain, aelodau Llundain o Gynulliad Llundain, aelodau etholaethol o Gynulliad Llundain, meiri etholedig a meiri awdurdodau cyfun) o fewn yr ardal gofrestru	Y rhan berthnasol o'r gofrestr ar gyfer yr ardal a gynrychiolir ganddynt, ac unrhyw hysbysiad newid a rhestr o'r etholwyr tramor sy'n berthnasol i'r ardal	(Cymru a Lloegr) 103 (Yr Alban) 102	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** - Fel yr hysbysir gan y cynrychiolydd etholedig
Aelodau o Senedd yr Alban (ASAau) o fewn yr ardal gofrestru	Fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr ac unrhyw hysbysiad newid (os yw'n ymwneud â'u hetholaeth neu, ar gyfer aelodau rhanbarthol, ar gyfer yr ardal gofrestru gyfan)	Paragraff 3, Atodlen 1, Gorchymyn Senedd yr Alban	**Pryd** – Am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** - Fel yr hysbysir gan yr ASA
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (lle mae'r ardal gofrestru wedi'i lleoli yn ardal yr heddlu)	Y rhan berthnasol o'r gofrestr ac unrhyw hysbysiad newid ar gyfer ardal yr heddlu a gynrychiolir ganddynt	Paragraff 3, Atodlen 1, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y cynrychiolydd etholedig

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Deiliaid swyddi etholedig perthnasol[3]	**At ddiben cadarnhau rhoddion yn unig:** Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 104 (Yr Alban) 103 PPERA - Atodlen 7, Paragraff 1(8)	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan ddeiliaid swydd etholedig berthnasol
Ymgeiswyr[4] **ar gyfer yr etholiadau canlynol**: - Senedd y DU - Llywodraeth leol - Awdurdod Llundain Fwyaf	**At ddiben cadarnhau rhoddion yn unig:** Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 104 (Yr Alban) 103 PPERA - Atodlen 7, Paragraff 1(8)	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan yr ymgeisydd
Ymgeiswyr[4] **ar gyfer yr etholiadau canlynol:** - Senedd y DU - Llywodraeth leol - Maerol - Senedd Cymru (ymgeiswyr unigol yn unig)	Y rhan o'r gofrestr lle mae'r ymgeisydd yn sefyll, unrhyw hysbysiad newid perthnasol a rhestr o'r etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 108 (Yr Alban) 107	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan yr ymgeisydd

[3] Ystyr swydd etholedig berthnasol yw aelod o'r canlynol: Tŷ'r Cyffredin; Senedd yr Alban; Cynulliad Cenedlaethol Cymru; Cynulliad Gogledd Iwerddon; a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu; ac aelod o unrhyw awdurdod lleol yn unrhyw ran o'r DU (gan gynnwys Cyngor Cyffredin Dinas Llundain ond heb gynnwys cyngor plwyf neu gymuned), neu Gynulliad Llundain Fwyaf, neu Maer Llundain neu faer etholedig o fewn ystyr Rhan II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000, neu faer awdurdod cyfun.

[4] Dim ond pan fydd unigolion yn dod yn ymgeisydd **swyddogol** yn unol â'r rheolau ar gyfer yr etholiad perthnasol y bydd yr hawl i ymgeiswyr yn berthnasol. Ceir canllawiau pellach yn ein canllawiau i ymgeiswyr ac asiantiaid.

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Ymgeiswyr etholaethol[4], ymgeiswyr rhanbarthol [4]unigol ac asiant etholiad plaid wleidyddol gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad ar gyfer Senedd yr Alban	Fersiwn ddiwygiedig o'r gofrestr ac unrhyw hysbysiad newid (os yw'n ymwneud â'r ardal lle mae'r ymgeisydd yn sefyll)	Paragraff 4, Atodlen 1, Gorchymyn Senedd yr Alban	**Pryd** – Am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – un copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan yr ymgeisydd neu asiant etholiad y blaid wleidyddol gofrestredig
Ymgeiswyr [4]unigol mewn etholiadau ar gyfer Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (lle mae'r ardal gofrestru wedi'i lleoli yn ardal yr heddlu)	Y rhan berthnasol o'r gofrestr ar gyfer ardal yr heddlu y mae'r ymgeisydd yn sefyll ynddi, ac unrhyw hysbysiad newid	Paragraff 5, Atodlen 1, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a[5] Throseddu 2012	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan yr ymgeisydd
Asiant etholiad ar gyfer plaid gofrestredig sy'n cyflwyno rhestr o ymgeiswyr ar gyfer etholiad aelodau Llundain o Gynulliad Llundain, neu etholiad mewn rhanbarth etholiadol ar gyfer Senedd Cymru	Y rhan berthnasol o'r gofrestr lle mae'r ymgeisydd yn sefyll, unrhyw hysbysiad newid perthnasol a rhestr o'r etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 108 (Yr Alban) 107	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan yr ymgeisydd neu'r asiant etholiad

[5] Mae paragraff 4 hefyd yn nodi y gellir darparu'r gofrestr ar gais at ddiben cydymffurfio â'r rheolaethau ar roddion

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Pleidiau etholaethol lleol	Yr etholaeth gyfan neu unrhyw ran ohoni sydd o fewn yr ardal gofrestru, unrhyw hysbysiad newid a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 105 (Yr Alban) 104	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig[6] **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y person a enwebir i weithredu gan swyddog enwebu cofrestredig y blaid
Pleidiau gwleidyddol cofrestredig • **plaid wleidyddol gofrestredig**[7] ar wahân i blaid fach o fewn ystyr Adran 160(1) o PPERA • **trydydd parti cydnabyddedig** [7]o fewn ystyr Adran 85(5) o PPERA, ar wahân i blaid wleidyddol gofrestredig • **cyfranogwr a ganiateir**[7] o fewn ystyr Adran 105(1) o PPERA, ar wahân i blaid wleidyddol gofrestredig	Yr etholaeth gyfan neu unrhyw ran ohoni sydd o fewn yr ardal gofrestru, unrhyw hysbysiad newid a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 106 (Yr Alban) 105	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y blaid neu'r cyfranogwr a ganiateir
Y cyngor a benododd y Swyddog Cofrestru Etholiadol	Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor (sy'n	(Cymru a Lloegr) 107 (Yr Alban) 106	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi)

[6] Gan berson a enwebir i weithredu ar ran etholaeth benodol gan swyddog enwebu cofrestredig plaid wleidyddol gofrestredig
[7] Mae'r Comisiwn yn cadw cofrestr o'r holl endidau o'r fath a ddisgrifir yma.

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
	berthnasol i ardal y cyngor)		**Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y cyngor
Awdurdod lleol arall y mae ei ardal yn cynnwys cyfrifoldeb y Swyddog Cofrestru Etholiadol yn llwyr neu'n rhannol e.e. cynghorau bwrdeistref sirol (heb gynnwys cynghorau plwyf a chymuned)	Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor (sy'n berthnasol i ardal yr awdurdod lleol)	(Cymru a Lloegr) 107	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan yr awdurdod lleol
Cynghorau plwyf a chymuned	Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor (sy'n berthnasol i ardal y cyngor plwyf neu gymuned)	(Cymru a Lloegr) 107 (Yr Alban) 106	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais ysgrifenedig **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y cyngor Plwyf neu Gymuned
Sefydliadau eraill cymwys: • y Gwasanaeth Diogelwch • Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth • y Gwasanaeth Cuddwybodaeth	Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 108A (Yr Alban) 107A	**Pryd – Darperir y gofrestr am ddim ar gais.** **Fformat – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi)** **Manylion cyswllt – Fel yr hysbysir gan y corff perthnasol**
Sefydliadau eraill cymwys: • Unrhyw heddlu ym Mhrydain Fawr • Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon a	Y gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 109 (Yr Alban) 108	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais. **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi)

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon (Wrth Gefn) • Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol • • Unrhyw gorff o gwnstabliaid a sefydlwyd o dan ddeddfiad - Yng Nghymru, mewn perthynas â chofrestr etholwyr llywodraeth leol, Sefydliad Technoleg Gwybodaeth yr Heddlu			**Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y corff perthnasol
Llyfrgell gyhoeddus neu wasanaeth archifau awdurdod lleol lle mae ei gylch gwaith yn cynnwys yr ardal gofrestru	Y rhan berthnasol o'r gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor (ystyr y rhan berthnasol yw'r rhan y rhoddwyd cyfrifoldeb i'r llyfrgell gyhoeddus neu wasanaeth archifau'r awdurdod lleol ei chadw gan awdurdod llyfrgelloedd neu awdurdod lleol)	(Cymru a Lloegr) 109A (Yr Alban) 108A	**Pryd** – Darperir y gofrestr am ddim ar gais. **Fformat** – Copi data (oni wneir cais am gopi wedi'i argraffu cyn ei darparu) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y llyfrgell neu'r gwasanaeth archifau

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol aelodau i awdurdod Parc Cenedlaethol (yr Alban yn unig)	Y gofrestr ddiwygiedig ddiweddaraf ac unrhyw hysbysiad newid	(Yr Alban) 97A	**Pryd** – Am ddim ar gais **Fformat** – Cymaint o gopïau wedi'u hargraffu ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad (gan gynnwys dyletswydd i ddarparu un copi o bob un ar ffurf data) **Manylion cyswllt** – Cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau

Tabl 3: Swyddogion Canlyniadau sydd â hawl i gael copi llawn o'r gofrestr etholwyr ar gyfer etholiad neu ddeiseb adalw

Nodyn: Mae gan Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiad llywodraeth leol yr hawl i gael copi am ddim adeg cyhoeddi (gweler tabl 1)

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) ar gyfer etholiad Seneddol[2], os nad yr unigolyn hwnnw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol	Y gofrestr ddiwygiedig ddiweddaraf, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr ddiweddaraf o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 98 (Yr Alban) 97	**Pryd** – Am ddim cyn gynted ag y gwneir cyhoeddiad o fwriad Ei Fawrhydi i ddiddymu'r Senedd neu y cyfyd sedd wag yn yr etholaeth berthnasol **Fformat** – Cymaint o gopïau wedi'u hargraffu ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad (gan gynnwys dyletswydd i ddarparu un copi o bob un ar ffurf data) **Manylion cyswllt** – Cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau (Gweithredol)
Swyddog Deisebau Yng Nghymru a Lloegr dyma'r person sy'n Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) mewn perthynas â'r etholaeth os nad nhw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd. Yn yr Alban dyma'r person sy'n Swyddog Canlyniadau mewn perthynas â'r etholaeth.	Y fersiwn diwygiedig diweddaraf o'r gofrestr etholwyr seneddol ar gyfer yr etholaeth y mae'r ddeiseb yn ymwneud â hi, a'r rhestr ddiweddaraf o etholwyr tramor. Unrhyw hysbysiad a gyhoeddwyd sy'n nodi newid i'r fersiwn	Paragraff 1, Atodlen 1, Rheoliadau Deddf Adalw ASau 2015 (Deiseb Adalw) 2016	**Pryd** – Yn rhad ac am ddim cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Swyddog Cofrestru Etholiadol gael gwybod gan y Swyddog Deisebau fod y Swyddog Deisebau wedi derbyn hysbysiad Llefarydd o dan adran 5 o'r Ddeddf. **Fformat** – Cymaint o gopïau printiedig ag sy'n ofynnol yn rhesymol at ddibenion y ddeiseb adalw (gan gynnwys dyletswydd i gyflenwi un copi o bob un ar ffurf data). **Manylion Cyswllt** – Cysylltwch â Swyddog Canlyniadau (Gweithredol) yng Nghymru neu Loegr, neu'r Swyddog Canlyniadau yn yr Alban.

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
	diweddaraf o'r gofrestr honno. Unrhyw hysbysiadau newid a ddyroddir mewn perthynas â deiseb adalw o dan a.13BC(6) o Ddeddf 1983 cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i unrhyw hysbysiad o'r fath gael ei ddyroddi.		
Swyddog Canlyniadau Lleol ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu[2] – os nad yr unigolyn hwnnw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol	Y gofrestr ddiwygiedig ddiweddaraf ac unrhyw hysbysiad newid	Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012[8]	**Pryd** – Am ddim, 60 diwrnod cyn yr etholiad ar gyfer etholiad cyffredin, neu ar y dyddiad y daw'r swydd yn wag **Fformat** – Cymaint o gopïau wedi'u hargraffu ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad (gan gynnwys dyletswydd i ddarparu un copi o bob un ar ffurf data) **Manylion cyswllt** – Cysylltwch â'r Swyddog Canlyniadau Lleol
Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu ar gyfer etholiad Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (lle mae'r ardal gofrestru wedi'i lleoli yn ardal yr heddlu)	Y gofrestr ddiwygiedig ddiweddaraf ac unrhyw hysbysiad newid	Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a	**Pryd** – Am ddim, 60 diwrnod cyn yr etholiad ar gyfer etholiad cyffredin, neu ar y dyddiad y daw'r swydd yn wag **Fformat** – Cymaint o gopïau wedi'u hargraffu ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad (gan gynnwys dyletswydd i ddarparu un copi o bob un ar ffurf data)

[8] Gorchymyn Etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu 2012

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
– os nad yr unigolyn hwnnw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol		Throseddu 2012	**Manylion cyswllt** – Cysylltwch â Swyddog Canlyniadau Ardal yr Heddlu
Swyddogion Canlyniadau Etholaethol a Rhanbarthol yn etholiad Senedd Cymru[2] – os nad yr unigolyn hwnnw yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol	Y gofrestr ddiwygiedig ddiweddaraf ac unrhyw hysbysiad newid	(Cymru a Lloegr) 98 (Yr Alban) 97	**Pryd** – Am ddim at ddibenion yr etholiad **Fformat** – Cymaint o gopïau wedi'u hargraffu ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad (gan gynnwys dyletswydd i ddarparu un copi o bob un ar ffurf data) **Manylion cyswllt** – Cysylltwch â'r swyddog perthnasol
Swyddogion Canlyniadau ar gyfer etholiad Senedd yr Alban	Y fersiwn ddiweddaraf o'r gofrestr, unrhyw hysbysiad yn nodi newid i'r gofrestr honno, ac unrhyw gofnod o gofnodion dienw	Paragraff 1, Atodlen 1, Gorchymyn Senedd yr Alban	**Pryd** – Am ddim cyn gynted ag y gwneir cyhoeddiad o fwriad Ei Fawrhydi i ddiddymu'r Senedd neu y cyfyd sedd wag yn yr etholaeth berthnasol. **Fformat** – Cymaint o gopïau wedi'u hargraffu ag sydd eu hangen yn rhesymol ar gyfer yr etholiad (gan gynnwys dyletswydd i ddarparu un copi o bob un ar ffurf data) **Manylion cyswllt** – Fel yr hysbysir gan y Swyddog Canlyniadau

Tabl 4: Y gofyniad i ddarparu i lyfrgelloedd cenedlaethol, yn dibynnu ar leoliad y Swyddog Cofrestru Etholiadol

Llyfrgell	Swyddog Cofrestru Etholiadol yn Lloegr	Swyddog Cofrestru Etholiadol yng Nghymru	Swyddog Cofrestru Etholiadol yn yr Alban	Fformat data	Cyfeiriad cyswllt (wedi'i argraffu)
Y Llyfrgell Brydeinig	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi wedi'i argraffu ac un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi wedi'i argraffu ac un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi wedi'i argraffu ac un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	Canllawiau cyflenwadau'r Llyfrgell Brydeinig ar gyfer cyflenwi cofrestri etholiadol yn uniongyrchol i bob Swyddog Cofrestru Etholiadol	Electoral Register Receipt Research Engagement The British Library 96 Euston Road LONDON NW1 2DB
Llyfrgell Genedlaethol Cymru	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi data[9] • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi wedi'i argraffu ac un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	Nid oes unrhyw ddarpariaeth ddeddfwriaethol yn ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Cofrestru Etholiadol ddarparu'r gofrestr	e-bost (fformat CSV) i: gew@llgc.org.uk; neu CD drwy'r post (wedi'i ddilyn gan gyfrinair mewn amlen ar wahân)	Cyhoeddiadau Swyddogol Uned Adnau Cyfreithiol Llyfrgell Genedlaethol Cymru Aberystwyth SY23 3BU

[9] oni wneir cais ysgrifenedig am gopi wedi'i argraffu cyn cyhoeddi

Llyfrgell Genedlaethol yr Alban	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	**Pryd** – Am ddim adeg cyhoeddi unrhyw gofrestr ddiwygiedig **Fformat**: • un copi wedi'i argraffu ac un copi data • un copi wedi'i argraffu o'r rhestr o etholwyr tramor	Pob Swyddog Cofrestru Etholiadol: digitalserials@nls.uk	Serials Unit National Library of Scotland Upper Gray Street Edinburgh EH9 1SW

Tabl 5: Prynu'r gofrestr etholiadol

Mae'r tabl hwn yn nodi'r rheini sydd â hawl i brynu'r gofrestr etholiadol lawn. Mae gwybodaeth am gyfrifo'r ffioedd perthnasol i'w chael yn ein canllawiau ar gyfer Swyddogion Cofrestru Etholiadol ar gyfer Cymru, Lloegr neu'r Alban.

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Adrannau'r llywodraeth a chyrff eraill: • un o adrannau'r llywodraeth (yn yr Alban, mae hyn yn cynnwys Gweinyddiaeth yr Alban) • (Cymru a Lloegr) Asiantaeth yr Amgylchedd; (Yr Alban) Asiantaeth Diogelu Amgylchedd yr Alban • yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol • yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus • corff sy'n ymgymryd â'r gwaith o ddilysu unrhyw unigolyn at ddiben sicrhau diogelwch gwladol (ac eithrio'r sefydliadau hynny sydd â hawl i gael copi am ddim)	Unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 113 (Yr Alban) 112	Fel yr hysbysir, ar gais ysgrifenedig ac ar ôl talu'r ffi berthnasol. Gellir gwneud cais am fformat data neu wedi'i argraffu.

Sefydliad / unigolyn	Hawl	Rheoliad(au)	Dull darparu a manylion cyswllt
Asiantaethau gwirio credyd Rhaid i'r sefydliad: • feddu ar ganiatâd o dan Ddeddf Gwasanaethau a Marchnadoedd Ariannol 2000 i ddarparu gwybodaeth i bobl sy'n ymwneud â sefyllfa ariannol pobl eraill. Gallwch gadarnhau p'un a yw sefydliad wedi cael caniatâd drwy edrych ar ei fanylion cofrestru ar wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol; a • bod yn 'darparu gwasanaethau gwirio credyd'. Diffinnir 'gwasanaethau gwirio credyd' yn y Rheoliadau fel darparu gwybodaeth i bobl sy'n ymwneud â sefyllfa ariannol unigolion, sef gwybodaeth a gesglir gan yr unigolyn sy'n ei darparu at ddiben ei darparu yn y fath fodd. Gallwch weld yr wybodaeth hon drwy ehangu'r blwch 'permission' ar gyfer cofrestriad y sefydliad ar wefan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol.	Ar ôl talu'r ffi berthnasol, unrhyw gofrestr ddiwygiedig, unrhyw hysbysiad newid, a'r rhestr o etholwyr tramor	(Cymru a Lloegr) 114 (Yr Alban) 113	Fel yr hysbysir, ar gais ysgrifenedig ac ar ôl talu'r ffi berthnasol. Gellir gwneud cais am fformat data neu wedi'i argraffu. Nodyn: Gall Swyddog Cofrestru Etholiadol ofyn i asiantaeth gwirio credyd ddarparu tystiolaeth briodol ei bod yn darparu gwasanaethau gwirio credyd.